Y Comisiwn Etholiadol

Isetholiadau Senedd y DU

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 4 o 6 – Yr ymgyrch

Medi 2016 (Diweddarwyd Tachwedd 2018)

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i isetholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan ar: www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents.

2

Cynnwys

Yr Ymgyrch **3**

‘Gair i gall’ wrth ymgyrchu **4**

Pryd allwch chi ddechrau ymgyrchu? 4

Pryd mae rhywun yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol? ... 4

Yn ystod yr ymgyrch, gallwch… 5

Yn ystod yr ymgyrch, dylech… 5

Yn ystod yr ymgyrch, ni chewch… 6

Defnydd o’r gofrestr etholiadol 7

Gwneud cais am gopi o’r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol 8

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus 8

Rhadbost 9

‘Gair i gall’ o ran cyhoeddusrwydd yr ymgyrch **9**

Defnyddio argraffnod 10

‘Gair i gall’ ar y diwrnod pleidleisio **11**

Cynnal hygrededd yr etholiad **12**

Rhestr o droseddau **13**

Llwgrwobrwyo 13

Tretio 13

Dylanwad gormodol 13

Cam-bersonadu 14

Datganiadau ffug **Am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd** 14

Gwybodaeth gofrestru ffug a chais ffug am bleidlais trwy’r post/trwy ddirprwy 15

Cais ffug am bleidlais trwy’r post neu trwy ddirprwy 15

Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy 15

Torri cyfrinachedd y bleidlais 15

Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch 15

Casineb hiliol 15

Adrodd ynghylch honiadau o dwyll etholiadol **16**

Beth os ydych chi wedi gwneud camgymeriad? **16**

Yr Ymgyrch

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein canllawiau ymgyrchu yn isetholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' pan fyddwn yn cyfeirio at ofynion penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau yr ydym yn eu hystyried yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau generig drwy'r ddogfen i roi syniad o amseru ar gyfer y prif brosesau. Fodd bynnag dylech gael copi o'r amserlen penodol ar gyfer yr isetholiad gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn leol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein Dogfen trosolwg am fanylion cyswllt.

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

4

‘Gair i gall’ wrth ymgyrchu

Pryd allwch chi ddechrau ymgyrchu?

1.1 Gallwch gychwyn ymgyrchu ar unrhyw amser. Nid oes raid i chi aros nes byddwch wedi cael eich enwebu yn ddilys i ddatgan y byddwch yn sefyll yr etholiad, gofyn i bobl eich cefnogi, neu gyhoeddi deunydd ymgyrch.

1.2 Mae terfynau gwariant etholiadol yn berthnasol cyn etholiad.Senedd y DU. I gael rhagor o wybodaeth am wariant etholiad, gweler Rhan 3 - Gwariant a rhoddion

Pryd mae rhywun yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol?

1.3 Y cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw’r dyddiad y mae’r sedd wag yn codi.

1.4 Er enghraifft, lle bo sedd wag oherwydd bod AS yn ymddiswyddo, mae’r sedd wag yn digwydd pan eu bod yn cymryd swydd sy’n anghymwyso o dan y Goron. Mae hyn gan na all AS ymddiswyddo, ond mae’r ffaith eu bod yn derbyn swydd stiward neu feili’R Goron i Gantrefi’ Chiltern neu Faenor Northstead, sy’n swyddi’r Gorofn fyddai’n arwain at anghymwyso ac, o ganlyniad, sedd wag.

1.5 Lle bo AS yn marw, mae’r sedd wag yn digwydd ar y dyddiad wnaethant farw.

1.6 Byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y diwrnod mae’r sedd wag yn digwydd os ydych ar neu cyn y dyddiad eisoes wedi datgan eich hun yn ymgeisydd yn yr etholiad (neu fod person arall wedi datgan eich bod yn ymgeisydd).

1.7 Ar ôl y dyddiad hwn, os ydych chi neu eraill yn datgan y byddwch yn ymgeisydd yn yr etholiad, byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir datganiad o’r fath, neu ar y dyddiad y byddwch yn cyflwyno eich papurau enwebu, p’un bynnag sydd gynharaf.

Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr o ran sut mae cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yn effeithio ymgyrchu etholiadol. Mae copi o’u canllawiau ar gael yma: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-and-human-rights-law-during-election-period-guidance-local-authorities

1.8 Unwaith y byddwch wedi dod yn ymgeisydd yn swyddogol, mae gennych hawl i gopi o'r gofrestr etholwyr. Mae gennych hawl hefyd i gael copi o'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer yr etholaeth yr ydych yn sefyll ynddi. Yn ogystal, gallwch ddefnyddio ystafelloedd ac ysgolion a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus (gweler paragraff **1.20** isod).

Yn ystod yr ymgyrch, gallwch…

- Annog pobl nad ydynt ar y gofrestr etholiadol i wneud cais i gofrestru. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn pryd ar gyfer yr etholiad yw 12 diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gall unigolion gofrestru ar-lein https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio . Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bwy all gofrestru ar **www.fymhleidlaisi.co.uk**.
- Helpu pleidleiswyr gyda gwybodaeth am bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy - gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar **www.fymhleidlaisi.co.uk**. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar yr 11eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad (5pm ar 21 Ebrill 2015). Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad (5pm ar 28 Ebrill 2015), er gall etholwyr mewn rhai amgylchiadau wneud cais am ddirprwy brys hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio (5pm ar 7 Mai 2015). Gall etholwr wneud cais am ddirprwy mewn argyfwng os ydynt, ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad (5pm ar 28 Ebrill 2015), wedi cael argyfwng meddygol neu wedi cael eu galw i ffwrdd ar fusnes.

Yn ystod yr ymgyrch, dylech…

- Os ydych yn datblygu eich ffurflenni cais am bleidlais absennol eich hunain, gwnewch yn siŵr eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, neu gwrthodir y ceisiadau. Yn benodol, rhaid i chi sicrhau bod y blychau llofnod a'r dyddiad geni ar ffurflenni cais drwy'r post a thrwy ddirprwy yn y fformat cywir. Fel canllawiau, dylech ddefnyddio ein ffurflenni cais pleidleisio absennol ar **www.fymhleidlaisi.co.uk**. Dylech ystyried cysylltu â'r

Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol a fydd efallai'n gallu rhoi ffurflenni y gallwch eu defnyddio i chi.

- Sicrhewch fod eich cefnogwyr yn dilyn ein cod ymddygiad ar gyfer delio â cheisiadau - bydd hyn yn eu helpu i osgoi sefyllfaoedd lle gellid cwestiynu eu gonestrwydd neu eu hygrededd.
- Sicrhewch fod eich cefnogwyr yn gwrtais wrth ymdrin ag ymgeiswyr eraill a'u cefnogwyr.
- Byddwch yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer penodi asiant etholiadol, ac asiantau i fynychu sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif. Gweler y dyddiadau cau yn ein dogfennau canllawiau Rhan 2a - Sefyll fel ymgeisydd annibynnol a Rhan 2b - Sefyll fel ymgeisydd plaid
- Gwiriwch ein canllawiau ar sut mae agor pleidleisiau drwy'r post, y broses bleidleisio a'r cyfrif yn gweithio er mwyn i chi wybod beth y gallwch ddisgwyl ei weld yn digwydd a phryd (gweler Rhan 5 - Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddo).
- Gwiriwch fod eich systemau ar gyfer cofnodi gwariant a rhoddion yn gweithio. I gael rhagor o wybodaeth am roddion a gwariant etholiad gweler Rhan 3 - Gwariant a rhoddion

Mae gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig hawl i dderbyn copi o'r gofrestr etholiadol lawn ar unrhyw adeg.

Yn ystod yr ymgyrch, ni chewch…

- Yn fwriadol wneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd arall.
- Talu canfaswyr. Mae canfasio yn golygu ceisio darbwyllo etholwr i bleidleisio dros neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid benodol.

Gall unrhyw berson a geir yn torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholiadol wynebu dirwy ddiderfyn

1.9 Gellir cael mwy o wybodaeth am droseddau etholiadol a sut i adrodd am y rhain yn ddiweddarach yn y ddogfen hon (o baragraff **1.44**).

1.10 Os ydych chi neu'ch asiant wedi gwneud camgymeriad ac wedi gweithredu yn groes i'r rheolau, gallwch wneud cais am ryddhad o ganlyniadau gwneud camgymeriad. Gweler paragraff **1.66** am ragor o wybodaeth.

Defnydd o'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.11 Unwaith yr ydych wedi dod yn ymgeisydd swyddogol fel yr eglurwyd ym mharagraffau **1.3** i **1.78** , mae gennych hawl i dderbyn copi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ('y rhestrau pleidleiswyr absennol') i'r etholaeth yr ydych yn ei hymladd.

Cyfyngiadau ar y defnydd o wybodaeth sydd yn y gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol

1.12 Y fersiwn a dderbyniwch fydd yr un gyfredol ar adeg eich cais. Gallwch hefyd ofyn am y rhestr o etholwyr sydd newydd gofrestru pan gaiff honno ei chyhoeddi bum diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.13 Mae'r gofrestr etholwyr a rhestrau pleidleiswyr absennol yn cynnwys data personol pobl, ac felly mae eu defnydd yn cael ei reoli'n ofalus iawn.

1.14 Gallwch eu defnyddio i:

- gwblhau eich ffurflen enwebu
- eich helpu i ymgyrchu
- gwirio bod rhoddion yn rhai a ganiateir

1.15 Rhaid i chi beidio â rhyddhau i unrhyw berson unrhyw fanylion sy'n ymddangos ar y gofrestr lawn yn unig, ac nad ydynt ar y gofrestr agored sydd ar gael i'w gwerthu'n gyffredinol, ac eithrio i'r dibenion a nodir uchod. Ni chewch:

- ddefnyddio'r gofrestr lawn a'r rhestrau pleidleiswyr absennol i unrhyw ddiben nad yw'n cael ei restru uchod, na
- rhoi copïau i unrhyw un tu allan i'ch ymgyrch (ac eithrio rhai cwmnïau prosesu data)

1.16 Os ydych yn darparu copi o'r gofrestr neu'r rhestrau pleidleiswyr absennol i weithwyr ymgyrch, rhaid iddynt hwythau hefyd gadw at y gofynion uchod

1.17 Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw'r gofrestr etholiadol a rhestr i bleidleiswyr absennol yn ddiogel. Unwaith nad oes eu hangen arnoch bellach at ddibenion etholiadol, dylech ddinistrio unrhyw gopïau a roddwyd i chi fel ymgeisydd yn ddiogel yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae dwy gofrestr. Pam?
Gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir y gofrestr olygedig hefyd).

Y gofrestr etholiadol
Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, megis sicrhau mai dim ond pobl sy'n gymwys i wneud all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith, megis canfod trosedd (e.e. twyll), galw pobl i wasanaeth rheithgor a gwirio ceisiadau credyd.

Y gofrestr agored
Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau. Gall gael ei brynu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei ddefnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad. Gall etholwyr ofyn nad yw eu henw na'u cyfeiriad yn cael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.18 Rhaid i chi ofyn am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**.

1.19 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig ac rydym wedi sicrhau bod ffurflen cais am gofrestr a ffurflen gais am restrau pleidleiswyr absennol ar gael i'r diben hwn ar ein gwefan.

1.20 Bydd y gofrestr a'r rhestrau yn cael eu darparu ar fformat electronig oni bai eich bod yn gofyn yn benodol am gopi papur.

Nid yw hawl ymgeiswyr i ddefnyddio ystafelloedd yn cynnwys oriau pan fydd ysgol yn cael ei defnyddio i ddibenion addysgol. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw archeb flaenorol am yr ystafell gyfarfod gael blaenoriaeth.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

1.21 Efallai y byddwch eisiau ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan hyrwyddo eich barn ac ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

1.22 Mae Swyddog Cofrestru Etholiadol pob cyngor yng Nghymru a Lloegr, a Swyddog Priodol pob cyngor yn yr Alban, yn cadw rhestr o leoliad ac argaeledd ystafelloedd cyfarfod yn eu hardal. Byddant yn gwneud y rhestr hon ar gael i'w harchwilio gan ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol (a phersonau a awdurdodir ganddynt) o'rdyddiad y mae'r swdd wag yn codi. Mae manylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gael ar **www.fymhleidlaisi.co.uk**. Yn yr Alban mae manylion eich Swyddog Priodol ar gael drwy y cyngor lleol.

1.23 Dylech gysylltu â pherchennog yr eiddo i archebu. Mae'n rhaid i chi roi rhybudd rhesymol, a fydd yn lleihau'r risg y gwrthodir y cais.

1.24 Ni chodir tâl llogi am ddefnyddio'r ystafelloedd hyn, ond rhaid i chi dalu am unrhyw dreuliau yr eir iddynt, fel gwres, golau a glanhau, ac am unrhyw ddifrod i'r eiddo.

Rhadbost

1.25 Os ydych yn cael eich dangos fel eich bod yn sefyll wedi'ch enwebu yn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, bydd gennych hawl i bostio anerchiad etholiadol am ddim i etholwyr yn yr etholaeth. Dim ond materion yn ymwneud â'r etholiad y caiff yr anerchiad hwn ei gynnwys.

1.26 Cyn cyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, os ydych yn datgan eich hun yn ymgeisydd mae gennych hawl i arfer yr hawl hwn, ond dim ond os ydych yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Post Brenhinol ynglŷn â thalu'r costau postio os nad ydych yn cael eich dangos ar y datganiad fel rhywun sy'n sefyll wedi'i enwebu.

1.27 Gallwch gael costau postio wedi'u talu ar naill ai:

- un cyfathrebiad etholiad heb gyfeiriad hyd at 60 gram i bob cyfeiriad post, neu
- un cyfathrebiad etholiad hyd at 60 gram wedi'i gyfeirio at bob etholwr

1.28 Os ydych yn ystyried ymarfer yr hawl hon, dylech gysylltu â'r Post Brenhinol i wneud trefniadau. Mae'n rhaid cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Post Brenhinol.

1.29 Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn ymgynghori â chanllawiau'r Post Brenhinol ar bostiadau ymgeiswyr ar www.royalmail.com/candidatemail.

'Gair i gall' o ran cyhoeddusrwydd yr ymgyrch

1.30 Rhaid i chi:

- Ddefnyddio argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrchu printiedig ac unrhyw ddeunydd ymgyrchu electronig a ddyluniwyd i gael ei argraffu yn lleol. Gweler paragraff **1.33** isod am ragor o wybodaeth.
- Gydymffurfio â rheolau cynllunio sy'n ymwneud â hysbysfyrddau a baneri mawr - dylech ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor.

- Sicrhau bod posteri yn yr awyr agored yn cael eu symud yn brydlon ar ôl yr etholiad - mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos i ddiwedd y pleidleisio.

1.31 Dylech:

- Gynnwys argraffnod ar yr holl ddeunydd ymgyrch heb ei argraffu, gan gynnwys gwefannau.
- Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, sydd ag anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu sydd heb y Saesneg fel eu hiaith gyntaf, neu, yng Nghymru, y Gymraeg. Efallai y byddwch am gysylltu â grwpiau anabledd yn eich ardal leol i gael cyngor.

1.32 Ni chewch:

- Gynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir i bleidleiswyr gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).
- Dalu i bobl arddangos eich hysbysebion (oni bai eu bod yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).

Defnyddio argraffnod

Beth yw argraffnod?

1.33 Yn ôl y gyfraith rhaid i argraffnod gael ei ychwanegu at ddeunydd ymgyrch i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw.

Beth sydd angen i chi ei gynnwys?

1.34 Ar ddeunydd printiedig, fel taflenni a phosteri, rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad:

- yr argraffydd
- yr hyrwyddwr
- unrhyw un y mae'r deunydd yn cael ei argraffu ar ei ran (ac nad yw'n hyrwyddwr)

1.35 Yr hyrwyddwr yw'r person sydd wedi caniatáu i'r deunydd gael ei argraffu. Os bydd yr hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu sefydliad, rhaid cynnwys enw'r grŵp neu sefydliad a'u cyfeiriad yn ogystal.

1.36 Gallwch ddefnyddio cyfeiriadau cartref neu gyfeiriadau swyddfa.

1.37 Os ydych yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid oes angen i'ch hysbyseb gynnwys manylion yr argraffydd. Fodd bynnag, rhaid i'r hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr ac unrhyw berson ar ran y sawl mae'r hysbyseb yn cael ei chyhoeddi. Os bydd yr hyrwyddwr a'r person ar ran y sawl mae'r hysbyseb yn cael ei chyhoeddi yr un fath, dim ond unwaith sydd rhaid cynnwys eu henw a'u cyfeiriad.

Enghraifft o argraffnod

1.38 Dylai argraffnod safonol i ymgeiswyr annibynnol edrych fel hyn:

> Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd].
>
> Hyrwyddwyd gan [enw'r asiant] o [cyfeiriad yr asiant], ar ran [enw'r ymgeisydd] o [cyfeiriad yr ymgeisydd].

1.39 Os mai'r ymgeisydd yw hyrwyddwr y deunydd hefyd, nid oes angen y rhan 'ar ran' yr argraffnod.

1.40 Ym mhob achos, dylech wneud yn siŵr fod yr argraffnod yn rhestru'r holl hyrwyddwyr a sefydliadau sy'n gysylltiedig.

Ble ydych chi'n rhoi'r argraffnod?

1.41 Os yw'r deunydd ar un ochr – fel poster ar gyfer ffenestr – rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen. Os yw'n amlochrog, rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu olaf.

Gwefannau a deunydd electronig arall

1.42 Dylech roi argraffnod ar ddeunydd electronig, fel gwefannau ac e-byst. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y mae wedi ei gynhyrchu ar ei ran.

Gwirfoddolwyr i ymgeiswyr yw rhifwyr sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau pleidleiswyr y pleidleiswyr sydd wedi pleidleisio.

'Gair i gall' ar y diwrnod pleidleisio

1.43 Dylech:

- Sicrhau bod unrhyw rifwyr sy'n gweithio i chi yn dilyn ein 'gair i gall' i rifwyr ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

- Sicrhau bod unrhyw asiantiaid sy'n mynychu gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau am gyfrinachedd y bleidlais. Am ragor o wybodaeth, gweler ein dogfennau sy'n nodi gofynion cyfrinachedd ar gyfer y bleidlais, pleidleisio drwy'r post a'r cyfrif. Ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru, rydym hefyd wedi cynhyrchu gofynion cyfrinachedd ar gyfer agor pleidleisiau drwy'r post, y bleidlais a'r cyfrif yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a Saesneg
- Gydymffurfio â cheisiadau gan staff yr orsaf bleidleisio neu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am ymgyrchu yn agos at orsafoedd pleidleisio.

1.44 Ni chewch:

- Ymgyrchu yn agos at orsafoedd pleidleisio mewn modd y gellid ei ystyried gan bleidleiswyr yn ymosodol neu'n fygythiol (er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr yn cludo baneri, neu gerbydau gydag uchelseinydd neu wedi eu gorchuddio â deunydd ymgyrchu).
- Dorri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais. Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth fodern a bydd unrhyw dorri ar y gofynion yn cael ei gymryd o ddifrif. Yn benodol, os ydych chi (neu eich asiantiaid) yn mynychu sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, rhaid i chi beidio â cheisio adnabod a chyhoeddi sut mae pleidleisiau wedi'u marcio ar bapurau pleidleisio unigol.
- Cyn i'r bleidlais gau, ni chewch gyhoeddi polau wrth fynd allan neu unrhyw ddata sy'n seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan bobl ynghylch sut y gwnaethant bleidleisio ar ôl iddynt fwr eu pleidlais, gan gynnwys pleidlais bost.

Cynnal hygrededd yr etholiad

1.44 Fel ymgeisydd byddwch chi yn un o wynebau cyhoeddus allweddol yr etholiad, a bydd eich gwrthwynebwyr, y cyfryngau a phleidleiswyr yn craffu ar eich ymddygiad. Dylai pleidleiswyr allu bod yn hyderus y byddwch yn gallu cydymffurfio gyda'r gyfraith a chynnal hygrededd yn y broses etholiadol.

1.45 Rydych chi hefyd yn gyfrifol am ymddygiad eich cefnogwyr, a'r person sy'n asiant etholiadol i chi sy'n gyfrifol

am reoli eich ymgyrch etholiadol ac, yn benodol, am sy'n gyfrifol am ei reolaeth ariannol. Dylech hefyd sicrhau eich bod chi a'ch cefnogwyr yn deall y gyfraith yn llawn ac yn gwybod beth sydd angen gwneud i sicrhau y gall pleidleiswyr gymryd rhan yn yr etholiad yn hawdd.

1.46 Gall yr heddlu ond ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol lle bo tystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi'i chyflawni, felly dylech allu cefnogi unrhyw honiadau pan fyddwch yn eu cyfeirio at yr heddlu. Dylech hefyd ystyried yr effaith ar hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd o wneud honiadau anwir neu heb sylwedd ynghylch ymddygiad ymgeiswyr eraill.

Rhestr o droseddau

1.47 Dylech fod yn ymwybodol o nifer o droseddau etholiadol a throseddau nad ydynt yn etholiadol, a dylech sicrhau eich cyngor cyfreithiol eich hun pan fo angen.

Nid ydym ni yn rheoleiddio unrhyw rai o'r troseddau hyn.

Am fanylion ar sut i adrodd ynghylch unrhyw honiadau o gamweddau etholiadol gweler paragraff **1.59**.

Llwgrwobrwyo

1.48 Mae'r drosedd o lwgrwobrwyo yn cynnwys pan fydd rhywun yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael unrhyw swydd i neu dros unrhyw bleidleisiwr, er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

Tretio

1.49 Mae person yn euog o dretio os yw, cyn, yn ystod, neu ar ôl etholiad yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddylanwadu'n llwgr ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio. Mae angen i dretio fod â bwriad llwgr - nid yw'n berthnasol i letygarwch arferol.

Dylanwad gormodol

1.50 Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os yw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliad, neu'n achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn cymell neu orfodi'r person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

1.51 Gall person fod yn euog o ddylanwad gormodol hefyd os yw'n rhwystro neu'n atal unrhyw bleidleisiwr rhag arfer ei

hawl i bleidleisio yn rhydd – hyd yn oed pan fydd yr ymgais yn aflwyddiannus.

1.52 Nid yw dylanwad gormodol yn cyfeirio'n unig at fynediad corfforol i'r orsaf bleidleisio. Er enghraifft, gall taflen sy'n bygwth defnyddio grym i gymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd arbennig hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

Cam-bersonadu

1.53 Cam-bersonadu yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall naill ai drwy'r post neu'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, fel etholwr neu fel dirprwy. Mae'r drosedd hon yn berthnasol os yw'r unigolyn sy'n cael ei gam-bersonadu yn fyw, yn farw neu'n ffug. Mae cynorthwyo, annog, cynghori neu gaffael y drosedd o gam-bersonadu hefyd yn drosedd.

Datganiadau ffug Am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd

1.54 Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffug o ffaith am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd er mwyn effeithio ar p'un a yw ymgeisydd yn cael ei ethol mewn etholiad.

1.55 Nid yw datganiadau ffug nad ydynt am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon dan gyfraith etholiadol, ond fe ellid eu hystyried yn enllib neu'n difenwi.

1.56 Mae hefyd yn arfer anghyfreithlon gwneud datganiad ffug bod ymgeisydd wedi tynnu ei enw yn ôl er mwyn hyrwyddo neu gaffael etholiad ymgeisydd arall.

Datganiadau ffug Ar bapurau enwebu

1.57 Mae'n drosedd darparu datganiad ffug ar bapur enwebu, y gwyddoch ei fod yn ffug. Er enghraifft, os ydych yn gwybod eich bod wedi eich gwahardd rhag cael eich ethol, ni ddylech lofnodi'r cydsyniad i enwebiad.

Gwybodaeth gofrestru ffug a chais ffug am bleidlais trwy'r post/trwy ddirprwy

1.58 Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug ar ffurflen gais i gofrestru, pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth ffug yn cynnwys llofnod ffug.

Cais ffug am bleidlais trwy'r post neu trwy ddirprwy

1.59 Mae person yn euog o drosedd os yw'n gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy i gael pleidlais nad oes ganddo'r hawl iddi neu i amddifadu rhywun arall o'u pleidlais.

Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy

1.60 Ceir troseddau amrywiol yn ymwneud â phleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post neu ddirprwy gan wybod eich bod yn ddarostyngedig i anallu cyfreithiol i bleidleisio a chymell neu gaffael rhywun arall i gyflawni'r drosedd.

Torri cyfrinachedd y bleidlais

1.61 Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r broses etholiadol neu sy'n mynychu rhai gweithrediadau gadw cyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi copi o'r gofynion cyfrinachedd swyddogol i bawb sy'n mynychu agoriad pleidleisiau post neu gyfrif y papurau pleidleisio ac i asiantiaid pleidleisio.

Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch

1.62 Mae rhai troseddau yn ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch gynnwys argraffnod, ni chaiff fod yn debyg i gerdyn pleidleisio, ac ni chaiff gynnwys datganiad ffug ynglŷn â chymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd arall.

Casineb hiliol

1.63 Dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd bygythiol, difenwol neu sarhaus a fwriedir i ennyn casineb hiliol neu sy'n debygol o ennyn casineb hiliol.

Nid ydym yn rheoleiddio cynnwys deunydd ymgyrchu ac nid ydym yn gallu rhoi sylwadau ar gyfreithlondeb unrhyw ddeunydd etholiadol penodol tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei drafod yn y canllawiau hyn.

Adrodd ynghylch honiadau o dwyll etholiadol

1.64 Os ydych yn pryderu efallai bod trosedd etholiadol wedi ei chyflawni, dylech yn gyntaf godi'r mater gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

1.65 Efallai y gallant esbonio p'un a oes trosedd etholiadol wedi ei chyflawni neu beidio, a gallant gyfeirio eich pryderon i'r heddlu os oes angen. Gallant hefyd roi manylion cyswllt yr heddlu i chi ar gyfer yr ardal berthnasol, fel y gallwch adrodd eich hun ynglŷn â'r honiad.

1.66 Os oes gennych dystiolaeth bod trosedd etholiadol wedi'i chyflawni, rydym yn eich annog i fynd **yn syth** at yr heddlu. Dylech fod yn barod i roi datganiad iddynt a chadarnhau eich honiad.

1.67 Yng Nghymru a Lloegr, ceir manylion cyswllt y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o wefan Fy mhleidlais i **www.fymhelidlaisi.co.uk**. Yn yr Alban gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar www.fymhleidlaisi.co.uk a gallwch gysylltu â Swyddogion Canlyniadau drwy eich cyngor lleol.

1.68 Sylwer, os yw eich honiad yn ymwneud â materion ariannol plaid, etholiad neu ymgyrchydd cofrestredig, fel gwariant neu roddion, yna dylech ddilyn y cyngor ar roddir yn y ddolen ganlynol:
http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances

Beth os ydych chi wedi gwneud camgymeriad?

1.69 Os ydych chi neu'ch asiant wedi gwneud camgymeriad ac wedi gweithredu yn groes i'r rheolau etholiad, gallwch wneud cais am ryddhad o gosbau am unrhyw drosedd.

1.70 Dylech bob amser geisio cyngor cyfreithiol os ydych yn ystyried gwneud cais am ryddhad.

1.71 Am ragor o wybodaeth, dylech:

- Fynd i ymweld â https://hmctsformfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do, a mewnbynnu'r rhif ffurflen LOC002

neu

- gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiad yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol yn y cyfeiriad canlynol:
  The Election Petitions Office
  Room E113
  Royal Courts of Justice
  Strand
  London WC2A 2LL
  E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk

  Ffôn: 020 7947 6877
  Ffacs: 0870 324 0024